# CYNGOR CYMUNED LLANWINIO COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanwinio nos Fercher yr 20fed o Fedi 2023 am 8.00pm yn Neuadd Llanwinio.

**PRESENNOL**: Cynghowyr  Iori Saer (Cadeirydd), Dorian Lewis, Sarah Pask, Christopher Smoothy, Huw James a Cynghorydd Sir Jean Lewis.

**YMDDIHEURIADAU**: Y Cynghorwyr Wyn Evans & Geraint Evans

**CYMHERWYD Y COFNODION GAN Y CLERC**: Liza Jones

**2: COFNODION**: Darllenwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 19eg o Orffennaf a'u cofnodi fel rhai cywir.

**3. DATGAN BUDD:**  Eitem 10 – Cynghorydd Jean Lewis parthed cynllunio.

**4: MATERION YN CODI:**

Mi'r oedd y clerc wedi gwneud ymholiadau am archebu diffibriliwr i Gwmfelinmynach. Cafodd yr amcan pris a dderbyniwyd wrth 'Tenby and Saundersfoot First Responders' am £1355 ei dderbyn. Byddai'r Cynghorydd Sarah Pask yn holi Ann Watling a byddai'n barod i'w chael ei nodi fel y person a chyfrifoldeb dros y diffibriliwr newydd. Nodwyd hefyd fod angen arwyddion ar y blwch ffôn yn Blaenwaun yn nodi fod diffibriliwr yno.
Roedd y clerc ac y Cynghorydd Sir Jean Lewis wedi dilyn y cais i fyny am olau stryd newydd yn Cwmfelinmynach ond nid oeddent wedi cael ymateb.
Roedd y Cynghorydd Iori Saer yn mynd i ddilyn i fyny y ddolen drws i hen blwch ffôn Blaenwaun.
Roedd y Cynghorydd Chris Smoothy wedi gwneud ymholiadau pellach am yr offer chwarae i'r maes chwarae ym Mlaenwaun. Cytunwyd i gael cyfarfod ar y maes chwarae mor fuan a phosib. Nid oedd wedi bod yn bosib archebu 'three gang mower'.

**5: CYTUNO CYFLOGAETH CLERC PARHAOL**

Nododd y clerc os hoffai'r Cynghorwyr ei phenodi yn glerc hir-dymor, oherwydd ymrwymiadau gartref, byddai angen newid cyfarfodydd Ionawr a Mawrth i'r nos Fercher cyntaf o'r misoedd yma. Cytunodd y Cynghorwyr nad oedd hyn yn broblem a cyntunwyd newid y cyfarfodydd yn hir-dymor i'r nos Fercher cyntaf o bob mis yn dechrau yn y cyfarfod nesaf ym Mis Tachwedd. Cytunwyd i dalu'r clerc yn fisol.

**6: GOHEBIAETH**

1. Roedd tystysgrif wedi dod i Sarah Pask am gwblhau cwrs hyfforddiant.

2- Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi danfon adolygiad o Ardaloedd a Llefydd Pleidleisio, Nid oedd unrhyw newid o fewn y plwyf.
3- Roedd Cyfreithwyr Edward Harries wedi danfon llythyr yn gofyn m ddiweddariad ar gofrestru'r Tir Comin. Fel a cytunwyd, danfonodd y clerc y llythyr ymlaen i Ross Gallie a oedd wedi cytuno cwblhau delio gyda'r mater.
4- Roedd y clerc wedi derbyn ymholiad am y cofnodion drafft a oedd wedi ei cyhoeddu ar y wefan. Roedd y clerc wedi diwygio'r cofnodion yn syth ac wedi diweddaru'r wefan. Roedd hefyd wedi rhoi nodyn ar y wefan yn nodi fod yr holl cofnodion yn rhai drafft hyd nes eu bod yn cael eu derbyn yn y cyfarfod canlynol.
5- Roedd y clerc wedi derbyn ebost wrth Clwb Moduro Caerfyrddin yn nodi byddai'r Rali yn teithio drwy'r plwyf ar y 23ain/24ain o Fedi.
6- Roedd arolwg parthed adeiladau yn cynnwys Concrit Awyredig Awtoclafedig Cyfnerth wedi ei dderbyn. Gan nad oedd y Cyngor yn berchen ar unrhyw adeiliad, nid oedd angen ei gwblhau.

**7: DERBYNIADAU:**

| | |
|---|---|
| Llôg | £51.15 |
| Praesept Cyngor Sir Caerfyrddin | £1333.33 |

**8: BILIAU:**

| | |
|---|---|
| Trydan SSE | £334.71 |
| Cyflog y Clerc | £560.00 |
| CaThEM – Treth Cyflogaeth | £140.00 |

Cafodd anfoneb wrth 'Parish Online' am aelodaeth Mapio Digidol am £48.00 ei gael yn ddi-angen, yn dilyn blwyddyn cyntaf rhad ac am ddim ,felly byddai'r clerc yn dilysu'r aelodaeth.

Roedd y cyn glerc wedi trefnu taliadau debid uniongyrchol i Trydan SSE am £66.45 ac i Dwr Cymru am £13.95 yn fisol. Cafodd y taliad cyntaf ei dderbyn ym mis Awst.

**9: ADRODDIAD ARIANNOL:**

| | |
|---|---|
| Cyfrif Busnes | £30,594.68 |
| Cyfrif Trysorydd | £12,585.76 |
| **Cyfanswm o** | **£43,180.44** |

**10: CYNLLUNIO:**

**PL/06403** – Offer Telathrebu a cypyrddau – tir yn Llanwinio, SA33 6DP. Yn dilyn y cyfarfod blaenorol roedd y clerc wedi danfon eu pryderon i Clarke Telecommunications. Yn dilyn cadarnhad drwy ebost wrth y Cynghorwyr, roedd y clerc wedi danfon gwrthwynebiad i'r cais cynllunio ar sail y rhresymau a godwyd yn y cyfarfod blaenorol.
**PL/06465** – Addasu ysgubor 2 lawr i anned dau ystafell wely @ Fron Isaf, Cwmbach. Ni chodwyd unrhyw bryderon.

**11: Unrhyw fater arall:**

Roedd y Cadeirydd, Y Cynghorydd Iori Saer wedi derbyn ymholiad wrth Glwb Pel Droed Llanboidy am ganiatad i chwarae gemau cyngrhair ar gaeau chwarea Blaenwaun. Roedd Y Clwb wedi bod yno eisioes yn gwneud gwelliannau ac atgyweirio gan gynnwys newid y seddau toiledau ermwyn sicrhau fod y maes yn cyrraedd y safonau angenrheidiol. Cymeradwywyd y gwaith yma. Nodwyd gan fod nifer o bobl yn gadael eu cŵn yn rhydd ar y caeau roedd pryder wedi cael ei godi am faeddu a byddai yn wedyn yn amhosib chwarae gemau cyngrhair. Ermwyn sicrhau fod y caeau chwarae yn cael eu defnyddio at eu pwrpas cywir, cytunwyd cael arwyddion i wahardd cŵn er lles a diogelwch chwaraewyr.

Nodwyd fod cais cynllunio arfaethedig am dyrbein gwynt yn Blaenpant, Rhif Cais Cynllunio PL/06513 heb gael ei wneud yn hysbys i'r clerc nac y Cynghorydd Sir. Cytunodd y Cynghorydd Sir Jean Lewis edrych mewn I hyn.

Cafwyd cais am ddeunydd atal-llithro ar y ddwy bon tar y llwybrau cyhoeddus gan eu bod wedi mynd yn llithrig. Byddai'r Cynghorudd Sarah Pask yn rhoi gwybod i'r clerc yr union lleoliad ermwyn iddo gael ei adrodd.

Codwyd pryder am y swmp o 'Jac y Neidiwr' (Himalayan Balsam) yn tyfu ar hyd y ffordd rhwng Tyddyn a Rhydgoch. Hefyd nodwyd nad oedd y cloddiau ger yr heolydd yng Nghwmfelinmynach, Bwmper a Trebiw heb cael eu torri o gwbl. Cytunodd y Cynghorydd Sir Jean Lewis adrodd y problemau hyn i'r Cyngor Sir.

**Cynhelir y cyfarfod cyffredinol nesaf nos Fercher y 1af o Dachwedd 2023 am 8:00pm yn Neuadd Gymuned Llanwinio.**